

# **CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON**

## **COFNODION PWYLLGOR CYFFREDINOL 17 CHWEFROR 2009**

### **Presennol**

Ei Theilyngdod y Maer – Cyng M P Jones

### **Cynghorwyr**

W R Owen, H Edwards, R Anderson, O T Owen, W T Owen, I C Thomas, A Y Williams, A W Bohana, G Parry, A Kirk, R Bonner Pritchard, M Thomas, W Ll Davies, A Roberts

## **Cododd pawb fel arwydd o barch i'r Diweddar Jack Thomas, oedd yn amlwg efo cysylltiadau mawr a'r Cyngor**

### **Siaradwr Gwadd : David Payne – ‘Planning Portal’**

Rhoddodd grynodedb o beth mae'r "portal" yn alluogi

Sef manylion llawn o geisiadau cynllunio a dull ymarferol iawn o weld y cynnwys yn llawn ( ond hyn yn ddibynnol ar Cynghorau Sir yn symud yn y modd yma)

Mi fuasai yn galluogi ni fel Cyngor weld bob dogfen sydd yn gysylltiedig a bob eitem cynllunio yn hytrach nag yr ychydig a dderbyniwyd ar hyn o bryd

Ar hyn o bryd mae dros 10,000 o geisiadau yn cael eu gweld trwy'r system, ac yn gobeithio denu dros 40% o geisiadau .

Os yw unigolyn yn darparu cais trwy'r portal yna dim ond 1 copi bydd angen ei roi ( arbed costau mawr)

Gwybodaeth helaeth ar y safle- TAN ( technical advice notes), newyddion.

System hawdd sydd ddim yn gadael ichi anghofio dim byd

Nodwyd o'r llawr bod angen i'r Cynghorwyr Sir yn ein plith ni ceisio roi perswâd ar Cyngor Gwynedd i symud ymlaen a defnyddio'r system yma

Diolchodd y Maer iddo am ei amser ar ran y Cynghorwyr oll

### **1. Ymddiheuriadau**

Cyng M Davies, Cyng H W Roberts

## **2. Datgan Buddiant Personol**

R Anderson – Cynllunio  
W T Owen – Cynllunio a Trwyddedu  
I C Thomas – Cynllunio a Gwyl Cyfryngau  
W R Owen – Cynllunio

## **3. Eitemau brys**

Llythyr gan Cyngor Gwynedd i'w drafod ynghyd ac eitem 8

## **4. Ceisiadau Cynllunio**

I ystyried y ceisiadau

### **Penderfynwyd**

I anfon rhestr argymhellion i'r awdurdod priodol

## **5. Cyfrifon**

I gymeradwyo biliau i'w talu

### **Penderfynwyd**

Derbyn a'u talu

## **6. Cyngor Gwynedd**

(gadawodd Cyng W T Owen yr ystafell)

Adran Trwyddedu

### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth

## **7. Rhybudd o Gynnig Cyng. R Anderson**

Par: Cysgodfan bws – Muriau Park

### **Penderfynwyd**

I'r clerwr symud ymlaen a'r mater a trafod efo Cyngor Sir a'r Cynulliad gan fod y ffordd yn "trunk road"

## **8. Rhybudd o Gynnig Cyng. Richard Bonner Pritchard**

Hawl Tramwy Doc Fictoria

### **Penderfynwyd**

Gwahodd swyddogion o'r Cyngor i gael cyfarfod brys ac anfon llythyr i Cyngor Sir yn dymuno i'r lon gael ei hagor yn y cyfamser

## **9. Diweddariad Partneriaeth Caernarfon**

Cyng. M. Davies

### **Penderfynwyd**

Symud i Cyngor nesaf

### **Diweddariad Gwyl Cyfryngau Celtaidd gan Y Clerc**

Mi fydd yr Wyl yn cymeryd rhan yn y Galeri yn bennaf , ond nifer o bethau diddorol yn digwydd yn y dre yn ystod y cyfnod

Maent wedi sicrhau ymweliad cyntaf “Cinemobile” i Gaernarfon sef sinema mewn lorry !! yn agor allan i greu sinema i 80 o bobl ac mi fydd wedi ei leoli ar y Maes yn ystod yr Wyl

Yn ogystal mi fydd cymeriadau rhai o rhaglenni adnabyddus y byd teledu yn taro mewn i wahanol sesiynau

Mae rhaglen llawn wedi ei baratoi i'r 300 sydd yn mynychu'r Wyl yn cynnwys nosweithiau o adloniant yn y dre ( fydd yn agored i bobl leol yn ogystal)

Syniad o gystadleuaeth i bobl ifanc tynnu lluniau o'r dref ar wahanol themâu ac yna'r lluniau gorau yn cael ei arddangos yn y Cinemobile

Mae'r Wyl yn dymuno defnyddio Crest y Cyngor ar pecynnau'r Wyl – a ydi'r Cyngor yn fodlon caniatáu

(gadawodd Cyng. I C Thomas a Cyng. R Anderson yr ystafell)

### **Penderfynwyd**

Derbyn yr adroddiad a caniatáu defnydd o'r Crest

## **10. Llythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 9 Chwefror 2009**

Adroddiad Blynyddol y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol  
2007 - 2009

### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth

## **11. Cwestiynau**

Be sy'n digwydd efo'r standing orders?

Angen mwy o bobl i'r trafodaethau

Oes modd ychwanegu “links” at ein wefan?

Oes – ond angen iddynt gael ei pasio gan y Cyngor

(clerc am roi ar agenda Pwyllgor Cyffredinol nesaf )

Gorffennodd y Cyfarfod am 8.05

Arwyddwyd..... Dyddiad.....

